# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2012** |
| Amser: | **09: – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_04_12_2012&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies** |
| Tystion: | **Mary Burrows, Betsi Cadwaldr University Health Board**<br>**Geoff Lang, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br><br>**Adam Cairns, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**<br>**Kevin Orford, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2. Cyllid Iechyd – Tystiolaeth gan Fyrddau Iechyd Lleol
2.1 Croesawodd y Cadeirydd Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; a Geoff Lang, Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

2.2 Holodd y Pwyllgor y tystion.

**Camau gweithredu:**

Gofynnwyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddarparu:

- nodyn ynghylch faint o gyllid a ddarparwyd i awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau; a
- ffigurau yn rhoi manylion am gwynion ffurfiol, pryderon a chanmoliaeth a leisiwyd wrth y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y patrymau dros y tair blynedd diwethaf. Nododd y Pwyllgor y byddai hefyd yn gofyn am ffigurau tebyg gan Fyrddau Iechyd eraill.

2.3 Croesawodd y Cadeirydd Adam Cairns, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; a Kevin Orford, Cyfarwyddwr Dros Dro – Materion Ariannol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

2.4 Holodd y Pwyllgor y tystion.

**Camau Gweithredu:**

Gofynnwyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddarparu:

- eglurhad o sut mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu arfer da â sefydliadau eraill o ran prynu defnyddiau traul yn effeithiol;
- nodyn ynghylch faint o gyllid a ddarparwyd i awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 4 i 6.

Oherwydd cyfyngiadau amser, ni chynhaliodd y Pwyllgor sesiwn breifat.

## 4. Ystyried y dystiolaeth a gafwyd ar Gyllid Iechyd

4.1 Oherwydd cyfyngiadau amser, ni thrafododd y Pwyllgor yr eitem hon.

## 5. Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen – Materion allweddol a themau sy'n dod i'r amlwg

5.1 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y materion allweddol a'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn yr ymchwiliad i broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen, ac i anfon sylwadau at y tîm clercio.

## 6. Ystyried y rhaglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn 2013

6.1 Nododd y Pwyllgor raglen waith bosibl ar gyfer tymor y gwanwyn 2013.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.